# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 3 - Senedd**

Dyddiad: Dydd Mercher, 15 Tachwedd 2017

Amser: Times Not Specified

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/4403

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | John Griffiths AC (Cadeirydd)<br>Gareth Bennett AC<br>Janet Finch-Saunders AC<br>Siân Gwenllian AC<br>Jenny Rathbone AC<br>Joyce Watson AC |
| Tystion: | Alun Davies AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus<br>Reg Kilpatrick, Llywodraeth Cymru<br>Julie James AC, Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip<br>Rebecca Evans AC, Y Gweinidog Tai ac Adfywio<br>Jo-anne Daniels, Llywodraeth Cymru<br>John Howells, Llywodraeth Cymru<br>Robert Hay, Llywodraeth Cymru |

| | |
|---|---|
| Staff y Pwyllgor: | Naomi Stocks (Clerc)<br><br>Elizabeth Wilkinson (Ail Glerc)<br><br>Chloe Davies (Dirprwy Glerc)<br><br>Jonathan Baxter (Ymchwilydd)<br><br>Osian Bowyer (Ymchwilydd)<br><br>Hannah Johnson (Ymchwilydd) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau a'r cyhoedd i'r cyfarfod.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Rhianon Passmore AC a Bethan Jenkins AC.

## 2 Craffu ar Gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2018-19: sesiwn dystiolaeth 2

2.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan:

- Alun Davies AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus
- Reg Mitchell-Kilpatrick, Cyfarwyddwr, Llywodraeth Leol, Llywodraeth Cymru
- Rob Hay, Dirprwy Gyfarwyddwr, Is-adran Polisi Cyllid Llywodraeth Leol, Llywodraeth Cymru

2.2 Yn ystod y sesiwn dystiolaeth, cytunodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus i ddarparu'r canlynol:

- Ffigurau cyffredinol cronfeydd wrth gefn pob awdurdod lleol ar gyfer 2017;
- Dadansoddiad o'r cronfeydd wrth gefn y mae awdurdodau lleol wedi tynnu ohonynt dros y blynyddoedd diwethaf;
- Manylion telerau'r grantiau penodol i ganolbwyntio ar ddigartrefedd yn y Prif Grŵp Gwariant cymunedau a phlant.

## 3 Craffu ar Gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2018-19: sesiwn dystiolaeth 3

3.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan:

- Alun Davies, Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus
- Julie James, Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip
- Rebecca Evans, y Gweinidog Tai ac Adfywio
- Reg Mitchell-Kilpatrick, Cyfarwyddwr, Llywodraeth Leol, Llywodraeth Cymru
- Jo-Anne Daniels, Cyfarwyddwr, Cymunedau a Threchu Tlodi, Llywodraeth Cymru
- John Howells, Cyfarwyddwr Tai ac Adfywio, Llywodraeth Cymru

3.2 Yn ystod y sesiwn dystiolaeth, cytunodd Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip i ddarparu unrhyw wybodaeth bellach am y safleoedd Sipsiwn a Theithwyr newydd i'w hariannu'n gyhoeddus yn 2018-19 pan fydd y wybodaeth ar gael.

3.3 Yn ystod y sesiwn dystiolaeth, cytunodd y Gweinidog Tai ac Adfywio i ddarparu'r canlynol:

- Canfyddiadau'r gwaith dadansoddi yn y dyfodol ar ddata a gesglir ar yr holl addasiadau cartref pan fydd y canfyddiadau ar gael;
- Yr arian a ddyrennir ar gyfer gwaith gorfodi Rhentu Doeth Cymru ac, yn benodol, yr hyn y bydd yn cael ei ddefnyddio ar ei gyfer.

## 4 Papur(au) i'w nodi

### 4.1 Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ynghylch Cymunedau yn Gyntaf - yr hyn a ddysgwyd

4.1.a Nododd y Pwyllgor y llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ynghylch Cymunedau yn Gyntaf - yr hyn a ddysgwyd.

### 4.2 Ymateb gan Let Down in Wales ynghylch ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar ffioedd i denantiaid yn y sector rhentu preifat

4.2.a Nododd y Pwyllgor yr ymateb gan Let Down in Wales i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar ffioedd i denantiaid yn y sector rhentu preifat.

### 4.3 Llythyr oddi wrth Gadeirydd Cydbwyllgor y DU ar Fenywod at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Adael yr Undeb Ewropeaidd ynghylch hawliau dynol yng Nghymru

4.3.a Nododd y Pwyllgor y llythyr gan Gadeirydd Cydbwyllgor y DU ar Fenywod at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Adael yr Undeb Ewropeaidd ynghylch hawliau dynol yng Nghymru.

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 (vi) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

5.1 Derbyniodd y Pwyllgor y cynnig.

## 6 Craffu ar Gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2018-19: trafod tystiolaeth a ddaeth i law o dan eitemau 2 a 3

6.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law o dan eitemau 2 a 3.